**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 7fed Medi 2016 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol y Rhyl, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. R. James (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs E. M. Chard, Ms J. McAlpine, Mrs W. Mullen-James, A.R. Rutherford, a T. Thomas.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

## 14. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Ms J. Hughes (yn sâl), B. F. Moylan (yn sâl), Mrs. W. Mullen-James (yn sâl), S. Ratcliffe (ar wyliau), Miss S. Roberts (ymrwymiad gwaith), Miss R. Siddall, y Parchedig S. Walker (ymrwymiad arall).

## 15. CEISIADAU CYNLLUNIO A BENDERFYNWYD YN YSTOD SEIBIANT MIS AWST

Ymhellach i Gofnod Rhif 37 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20fed Gorffennaf 2016, cydnabu'r Aelodau y ceisiadau canlynol a oedd wedi cael ymateb yn ystod Seibiant mis Awst gan Glerc y Dref mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd.

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

| **CEISIADAU CYNLLUNIO** | **Seibiant Mis Awst (1)** |
|---|---|
| 15.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 22 Bath Street, y Rhyl<br><br>**WARD:** Plastirion<br><br>**Rhif y CAIS: 45/2016/609**<br><br>Defnyddio 2 Ystafell Llawr Daear fel fflatiau un ystafell.<br><br>Yr Ymgeisydd yw Mr. Mark Hughes, Grosvenor Avenue, y Rhyl.<br><br>**PENDERFYNIAD**: Gwrthwynebu gan fod y cynnig yn groes i bolisi BSC 1 y cynllun lleol a fabwysiadwyd. |
| | |
| 15.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Coop Food, 45 Ffordd Elan, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Tynewydd<br><br>**Rhif y CAIS: 45/2016/0671** |

| | |
|---|---|
| | Arddangos arwyddion newydd.<br><br>Yr Ymgeisydd yw Food Programme Delivery Orchid Group, 1 Angel Square, Manceinion.<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad |
| | |
| 15.3 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 4 Paradise Street, y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**Rhif y CAIS: 45/2016/0650**<br><br>Gwaith i goed mewn ardal gadwraeth.<br><br>Yr Ymgeisydd yw Ms. Sarah Dunphy, 9 Llys Alarch, y Rhyl.<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad |
| **CEISIADAU CYNLLUNIO** | **Seibiant Mis Awst (2)** |
| 15.4 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Parc Busnes Cambrian, 130 Marsh Road, y Rhyl<br><br>**WARD:** Cefndy<br><br>**Rhif y CAIS: 45/2016/0736**<br><br>Newid defnydd tir i greu lle parcio ychwanegol a chompownd mewn cysylltiad â Pharc Busnes Cambrian (rhannol ôl-weithredol).<br><br>Yr Ymgeisydd yw Cambrian Property Holdings Limited, 7 Parc Luned, Bae Cinmel.<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad |
| | |
| 15.5 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Hafod Wen a Haliwood, Ffordd Bryn Cwnin, y Rhyl<br><br>**WARD:** Derwen<br><br>**Rhif y CAIS: 45/2016/0737**<br><br>Gawith i goeden dderw T1 a lleihau’r corun 20% coed derw T2, T3 a T4 sy’n destun Gorchymyn Cadw Coed.<br><br>Yr Ymgeisydd yw Mr. P. Walker, 5 Glendower Court, y Rhyl.<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad yn ddarostyngedig i amod yn gofyn am fonitro’r holl goed rhestredig ar y safle hwn gan arbenigwr coed cymwys i sicrhau bod trefniadau cynnal a chadw priodol yn cael eu cyflwyno. |
| | |
| 15.6 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Archfarchnad Morrisons, Marsh Road, y Rhyl |

| | |
|---|---|
| | **WARD:** Cefndy<br><br>**Rhif y CAIS: 45/2016/0785**<br><br>Arddangos arwyddion siop a gorsaf betrol newydd.<br><br>Yr Ymgeisydd yw Hillmore House, Gain Lane, Bradford BD3 7DL<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad |
| 15.7 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 23 Rowan Drive, y Rhyl<br><br>**WARD:** Derwen<br><br>**Rhif y CAIS: 45/2016/0769**<br><br>Adeiladu estyniad yn y cefn.<br><br>Yr Ymgeisydd yw Mr. G. Owen o’r un cyfeiriad<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad |
| | |

**16. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir arnynt nawr.*

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle’n briodol, bod gofyn i’r holl geisiadau a restrir isod sy’n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy’n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

| **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| 16.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Cartref Nyrsio Preswylfa 20 Ffordd Russell, y Rhyl<br><br>**WARD:** Plastirion<br><br>**Rhif y CAIS: 45/2016/0734**<br><br>Gwaith i goed sy’n destun Gorchymyn Cadw Coed Rhif 9 1988 ac o fewn Ardal G2 ar y cynllun ynghlwm i Orchymyn Cadw Coed Cyngor Dosbarth Trefol y Rhyl 1951.<br><br>Yr Ymgeisydd yw Embrace Group, Cartref Nyrsio Preswylfa, o’r cyfeiriad uchod.<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad |
| | |

| | |
|---|---|
| 16.2 | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u>** Safle Theatr y Pafiliwn a'r Heulfan a thir/meysydd parcio cyffiniol, Rhodfa'r Dwyrain, y Rhyl.<br><br>**<u>WARD:</u>** Plastirion<br><br>**<u>Rhif y CAIS</u>: 45/2016/0740**<br><br>Ailddatblygu 4.25ha o dir yn ymgorffori'r elfennau hybrid (Llawn/Amlinell) canlynol:- Dymchwel yr hen "Heulfan" ac ailwampio tu allan Theatr y Pafiliwn sy'n cyffinio gan ymgorffori cladio (Llawn) – Adeiladu Canolfan Arddangos/Ddigwyddiadau 4,000 medr sgwâr Dosbarth D2 fel estyniad i Theatr y Pafiliwn (Amlinell) – Adeiladu gwesty Dosbarth C1 73 llofft (Llawn) – Adeiladu 2 fwyty Teulu Dosbarth A3 (Amlinell) – Cadw ac ail-ddefnyddio ciosg manwerthu presennol ac adeilad sied trên tir at ddefnydd manwerthu/hamdden/cymunedol (Llawn) – Maes parcio newydd ac wedi ei ail-lunio i geir/bysys (Llawn) – Gwelliannau a newidiadau i fynedfa a mannau troi presennol i gerbydau (Llawn) – Manylion tirlunio caled a meddal (Llawn/Amllinell).<br><br>Yr Ymgeisydd yw Neptune Developments Ltd., 2 Queen Square, Lerpwl<br><br>**<u>PENDERFYNIAD</u>**: Dim gwrthwynebiad |
| | |
| 16.3 | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u>** 76 Trellewelyn Road, y Rhyl.<br><br>**<u>WARD:</u> Trellewelyn**<br><br>**<u>Rhif y CAIS</u>: 45/2016/0822**<br><br>Adeiladu estyniadau a gwneud newidiadau i dŷ annedd.<br><br>Yr Ymgeiswyr yw Mr. a Mrs. David a Deborah Arthur o'r un cyfeiriad.<br><br>**<u>PENDERFYNIAD</u>**: Dim gwrthwynebiad |

17. **<u>CAIS CYNLLUNIO 45/2016/0471/PS ARANWAY HOUSE, FFORDD DYSERTH, Y RHYL</u>**

Adroddodd y Cadeirydd / Clerc y Dref bod y gwrthwynebiad blaenorol i'r cais uchod wedi ei dynnu'n ôl ar ôl derbyn gwybodaeth ychwanegol a chael cyngor gan Swyddogion Cynllunio'r Cyngor Sir.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *cydnabod y sefyllfa.*

**18. <u>POLISI ARFAETHEDIG AR RODDI HYSBYSFYRDDAU AR DDATBLYGIADAU NEWYDD</u>**

Cyfeiriodd yr Aelodau at hysbysfyrddau a roddwyd o gwmpas safleoedd datblygu a'r ddelwedd negyddol sydd wedi ei chreu gan y baneri arddangos sydd wedi eu difrodi ar safle gwesty arfaethedig ar Rodfa'r Gorllewin.

Roedd yr Aelodau'n cydnabod ac yn croesawu'r ffaith bod y baneri wedi eu gosod i hysbysu trigolion ac ymwelwyr o'r datblygiad a oedd yn mynd rhagddo ond roeddynt yn bryderus, gan fod y baneri wedi eu difrodi ddechrau mis Awst, nad oeddynt wedi eu hatgyweirio/hadnewyddu er gwaethaf ymrwymiad a gyhoeddwyd gan y Cyngor Sir yn y wasg leol. Teimlai'r Aelodau bod y sefyllfa wedi ei gwaethygu gan y digwyddiadau mawrion a gynhaliwyd yn y dref ers pan ddigwyddodd y difrod a'r ddelwedd negyddol roeddynt wedi ei rhoi o'r dref i ymwelwyr.

Soniodd yr Aelodau am hysbysfyrddau roeddynt wedi eu gweld ar safleoedd datblygu eraill lle'r oedd y neges wedi ei argraffu ar wyneb yr hysbysfyrddau ac o ystyried maint y datblygiadau a oedd ar y gweill o gwmpas y dref ar hyn o bryd, teimlent y dylid gwneud cais i Adran Gynllunio'r Cyngor Sir i ganfod os oedd yn ymarferol sefydlu polisi ar gyfer holl ddatblygiadau newydd yn gofyn am hysbysfyrddau o safon leiaf gyda gofynion i hysbysebu'r datblygiad arnynt mewn ffordd mwy parhaol.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref a Chadeirydd y Pwyllgor Cynllunio yn gofyn am gyfarfod gyda Swyddog Cynllunio priodol i drafod y mater.*

## 19. GWAITH GORFODI AR SAFLE TIR BLÊR

Cyfeiriodd Aelod at y ffaith iddo adrodd bod cerbydau blêr wedi eu parcio ar dir preifat ar Marine Drive am nifer o flynyddoedd, a'r sefyllfa bresennol o ran cael gwaith gorfodi i adfer y safle.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod yr adroddiad.*

## 20. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad**:** **………………………...**